**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Elin Jones AS
Llywydd
Cadeirydd, Y Pwyllgor Busnes

2 Gorffennaf 2021

Annwyl Lywydd

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

Ar 29 Mehefin 2021, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ynghylch Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er mwyn i'r Pwyllgor graffu ar y Bil, gan bennu dyddiad cau o 14 Hydref 2021 ar gyfer cyflwyno adroddiad. Wrth wneud hynny, rwy'n nodi na wnaeth y Pwyllgor Busnes gyfeirio'r Memorandwm naill ai at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol nac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai hefyd.

Deallaf fod cylchoedd gwaith pwyllgorau newydd y Senedd wedi'u dylunio mewn ffordd nad yw'n atal y pwyllgorau hynny rhag gwneud gwaith ar draws portffolios. At hynny, mae cylchoedd gwaith rhai pwyllgorau yn ymddangos fel eu bod wedi'u dylunio'n fwriadol i ganiatáu iddynt orgyffwrdd mewn rhai meysydd. O gofio hynny, i helpu i wella dealltwriaeth o'n cylch gwaith a'i wneud yn fwy tryloyw, gan wella ein perthynas â phwyllgorau eraill drwy wneud hynny, byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio pam y cyfeiriwyd y Memorandwm penodol hwn at ein pwyllgor ni yn unig.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Senedd Cymru
Welsh Parliament